# PWYLLGOR CYNLLUNIO

# DYDD MAWRTH, 9 EBRILL 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | T. Davies | M. Donoghue | J.K. Howell |
| A.C. Jones | B.D.J. Phillips | E. Skinner | R. Sparks |
| G.B. Thomas | M. Thomas | D.E. Williams | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
J.M. Charles

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
Mr G. Morgan - Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio)

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
H. Towns, Uwch Reolwr Datblygu a Gorfodi
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
Z.A. Evans, Peirianydd Cynorthwyol (Cyswllt Cynllunio)
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau DemocrataiddM. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 12.40 - 1.50 yp**
(NODER: Gan fod y Pwyllgor wedi dychwelyd yn hwyr o ymweliad safle, bu oedi cyn dechrau'r cyfarfod a oedd i fod i ddechrau am 12:00.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M.J.A. Lewis, A. Leyshon a D. Owen.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/05187** | **Codi preswylfeydd newydd, mynediad i gerbydau, mannau agored a seilwaith cysylltiedig arall ar dir Cefncaeau, Llanelli**<br><br>Cyfeiriodd yr Uwch-reolwr Datblygu a Gorfodi at ymweliad preifat â'r safle gan y Pwyllgor yn gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 3.2 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 29 Chwefror 2024), a drefnwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar ran ogleddol safle'r cais.<br><br>Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r cynnig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais.<br><br>Dywedodd fod y safle yn rhan o ardal fwy wedi'i neilltuo ar gyfer tai o fewn y Cynllun Datblygu Lleol a phe bai'r cais yn cael ei ganiatáu, byddai'r caniatâd yn amodol ar Gytundeb Adran 106 i gynnwys darparu tai fforddiadwy a manteision cymunedol eraill fel y nodir yn yr adroddiad.<br><br>Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig. |

**CHAIR** **DATE**